

# Cynllun busnes

2021-23



Cyngor Meddygol Cyffredinol

---

# Cynnwys

<b>Cynllunio busnes, y ffordd ymatebol</b>	<b>02</b>
<b>Rheoleiddio effeithiol, perthnasol a thosturiol</b>	<b>03</b>
<b>Cyflawni ein strategaeth</b>	<b>04</b>
Galluogi Gweithwyr Proffesiynol i ddarparu gofal diogel	04
Datblygu Gweithlu Cynaliadwy	05
Sicrhau bod pob cyswllt yn bwysig	06
Buddsoddi yn ein pobl i gyflawni ein strategaeth	07

# Cynllunio busnes, y ffordd ymatebol

Mae'r byd yn newid, ac mae gofal iechyd yn newid hefyd. Cyn pandemig y coronafeirws (COVID-19), roeddem wedi dechrau cynllunio'r newid tuag at gynllun busnes treigl tair blynedd er mwyn ein galluogi i fod yn fwy ymatebol a hyblyg. Mae dyfodiad COVID-19 wedi amlygu pwysigrwydd y dull hwn.

Er bod y cynllun hwn yn nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer y dair blynedd nesaf – rydym yn disgwyl iddo esblygu. Lle'r ydym yn gallu bwrw ymlaen gyda gwaith strategol nawr, heb danseilio'r ffocws ar yr ymateb i'r pandemig, byddwn yn gwneud hynny.

Yn ogystal, rhaid i ni fod yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd, adleoli adnoddau ac ail-flaenoriaethu gweithgareddau yn ôl yr angen. Bydd ein proses cynllunio busnes ac adolygu chwarterol yn ein helpu i ailasesu ein blaenoriaethau o ran y gwasanaeth iechyd ehangach.

Bydd bod yn sensitif i anghenion y system ehangach yn golygu y byddwn yn rhoi mwy o ffocws ar rai themâu strategol nag eraill ar wahanol adegau efallai, ond byddwn yn cydbwysu hyn dros gyfnod ein strategaeth.

## Adrodd ein cynnydd

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor am ein cynnydd wrth gyflawni ein cynllun busnes, yn ogystal ag yn ein hadroddiad blynyddol. Gallwch weld y diweddariadau hyn ar ein gwefan.



# Rheoleiddio effeithiol, perthnasol a thosturiol

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein rhan yn yr ymateb ar draws y system er mwyn rheoli'r pandemig a'i effeithiau mwy hirdymor.

## Diwylliant gofalgarg

Mae iechyd a lles gweithwyr meddygol proffesiynol mor allweddol i allu darparu gofal o ansawdd uchel ag y mae unrhyw agwedd arall ar y system.

Er bod ein swyddogaeth graidd, sef diogelwch, wrth wraidd yr hyn a wnawn, byddwn yn canolbwyntio hefyd ar yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu amgylcheddau gofal iechyd cynhwysol, cefnogol ac sydd ag adnoddau da. A byddwn yn ailgychwyn ein hymrwymiad i fod yn gymesur, yn deg ac yn empathetig yn ein dull wrth ddiogelu'r cyhoedd a chynorthwyo gweithwyr proffesiynol.

**Er bod ein swyddogaeth graidd, sef diogelwch, wrth wraidd yr hyn a wnawn, byddwn yn canolbwyntio hefyd ar yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu amgylcheddau gofal iechyd cynhwysol, cefnogol ac sydd ag adnoddau da.**

## Adfer ac adnewyddu

Yn erbyn cefndir y pandemig, rydym wedi bod yn gwranddo ar y rhai sy'n rhyngweithio gyda ni, gan ddysgu am yr hyn sy'n gweithio a myfyrio am y ffordd y gallwn wella ein gwasanaethau. Gan edrych i'r dyfodol, rydym wedi ymrwymo i:

- wneud popeth y gallwn er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau amserol a phroffesiynol
- buddsoddi mewn technoleg, megis archwiliadau adnabod digidol, ymweliadau sicrhau ansawdd rhith a gwrandawliadau rhith
- ailgychwyn ailddilysu a chynorthwyo'r broses o ailosod cydbwysedd arfarnu, fel ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar anghenion datblygu, cymorth a lles gweithwyr meddygol proffesiynol
- cynyddu ein gallu asesu clinigol, fel y gallwn asesu a chofrestru rhagor o feddygon newydd, gan wrthbwyo'r gallu is cyfredol oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol
- ehangu ein timau ymchwilio er mwyn symud ymlaen gyda gwaith y bu'n rhaid ei oedi yn ystod y pandemig, fel y gallwn gwblhau achosion mor gyflym ag y bo modd a lleihau straen i bawb dan sylw gymaint ag y bo modd
- defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig ac o adolygiadau ac ymchwiliadau cyhoeddus i sicrhau cymaint o aliniad ag y bo modd gydag eraill ar draws y system o ran y ffordd yr ydym yn cydweithio.

# Cyflawni ein strategaeth

Law yn llaw â'n dyletswyddau rheoliadol,\* byddwn yn bwrw ymlaen gyda'n mentrau strategol, a gynlluniwyd gyda ac ar gyfer gweithwyr meddygol proffesiynol, cleifion a phartneriaid. Yn hytrach na rhoi rhestr gyflawn o'n holl weithgareddau allweddol, yma, rydym yn disgrifio ein huchelgais uniongyrchol. Pennwyd y blaenoriaethau hyn gan eu natur frys a chan eu heffaith.



## Galluogi Gweithwyr Proffesiynol i ddarparu gofal diogel

### Adolygu 'Arfer meddygol da'

2013 oedd y tro diwethaf yr adolygom 'Arfer meddygol da', y safonau craidd a ddisgwyliwn gan bob meddyg sy'n gweithio yn y DU. Rydym yn dymuno sicrhau bod yr arweiniad yn parhau i fod yn berthnasol a'i fod yn adlewyrchu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu am brofiadau meddygon yn ystod y pandemig. Bydd hyn yn ein galluogi i gynorthwyo'r proffesiwn wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

### Hyrwyddo diwylliannau gofal iechyd cefnogol a chynhwysol

Amlygodd ymchwil 'Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau' rwystrau penodol mewn amgylcheddau a diwylliannau gweithle, sy'n cael effaith negyddol ar weithwyr meddygol proffesiynol ac ansawdd y gofal y maent yn ei roi. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y DU i sicrhau newidiadau hollbwysig wrth ymateb i'r canfyddiadau hyn.

Un maes y byddwn yn canolbwyntio arno fydd lleihau anghymesuredd – o ran y pryderon y bydd cyflogwyr yn cyfeirio atom ac o ran canlyniadau addysg a hyfforddiant. Mae'n hysbys bod yr adlewyrchiadau hirsefydlog hyn o anfantais a gwahaniaethu hiliol yn cael eu lleihau gan amgylcheddau arfer cynhwysol a chefnogol. Wrth weithio gydag eraill, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion hyn. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant ym maes gofal iechyd yn hollbwysig i weithwyr meddygol proffesiynol a chleifion.

# Cyflawni ein strategaeth



## Datblygu Gweithlu Cynaliadwy

### Gwella hyblygrwydd addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig

Cynlluniwyd ein rhaglen 'Hyblygrwydd mewn hyfforddiant' i wella lles, cyfraddau cadw a datblygiad sgiliau hyfforddeion a hyfforddwyr gymaint ag y bo modd trwy gyfrwng addysg a hyfforddiant. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n [cynllun er mwyn gwella hyblygrwydd addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig yn y DU](#). Roedd y cynllun yn amlinellu materion gan gynnwys pryderon hyfforddeion, pwysau ar y gweithlu a chyffredinrwydd clefydau. Yn ogystal, roedd yn amlygu'r angen i drawsnewid er mwyn adlewyrchu newidiadau ym maes meddygaeth, technoleg ac anghenion a disgygliadau cleifion.

### Cyflwyno'r asesiad trwyddedu meddygol (ATM)

Bydd yr ATM yn creu trothwy cymhwystra cyffredin i bob meddyg sy'n gweithio yn y DU. Yn ei dro, bydd hyn yn arwain at ofal a sicrwydd gwell i gleifion. Yn y dyfodol, byddwn yn ystyried sut y gallwn helpu rhagor o weithwyr proffesiynol i fodloni'r trothwy hwnnw wrth ymateb i anghenion cyflenwi y wasanaeth iechyd.

### Rheoleiddio cymdeithion meddygol proffesiynol

Mae cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia\* yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ofal cleifion ac maent yn ehangu capasiti a gallu y gweithlu meddygol. Cyn bo hir, byddwn yn rheoleiddio'r proffesiynau hyn hefyd, a'n nod yw cynyddu eu cyfraniad i'r gweithlu a darpariaeth gofal cleifion o ansawdd gymaint ag y bo modd.

### Adolygu ein llwybrau cofrestru

Byddwn yn dechrau ein rhaglen 'Llwybrau cofrestru' er mwyn cynyddu nifer y gweithwyr meddygol proffesiynol posibl sydd ar gael i ddarparu gofal. Bydd hyn yn ailystyried ein llwybrau presennol a'n llwybrau posibl yn y dyfodol er mwyn i weithwyr proffesiynol addas sicrhau cofrestru yn y DU. Bydd ein ffocws cychwynnol ar sicrhau bod ein fframwaith cofrestru yn parhau i fod yn addas i'r diben wrth i ni reoli effaith ymadawiad y DU o UE. Yn ogystal, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gynyddu ein capasiti ar gyfer asesiadau clinigol gymaint ag y bo modd, er mwyn cynorthwyo graddedigion meddygol rhyngwladol sy'n dechrau gneud gwaith meddygol yn y DU.

# Cyflawni ein strategaeth



## Sicrhau bod pob cyswllt yn bwysig

### Bod yn rheolydd mwy hyblyg ac ymatebol

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar newidiadau i'n fframwaith deddfwriaethol er mwyn trawsnewid y ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau statudol. Byddwn yn darparu model rheoleiddio sy'n hyblyg ac sy'n gallu addasu i anghenion y system. Mae gan y gwaith hwn y potensial i ail-siapiro ein gweithrediadau a thrawsnewid ein dull, ein defnydd o dechnoleg, ac i wella profiad y rhai sy'n cael cyswllt gyda ni. Bydd hyn yn creu rhaglen waith allweddol ar gyfer oes ein '[Strategaeth gorfforaethol 2021-25](#)'.

### Deall mwy am brofiadau gweithwyr meddygol proffesiynol

Byddwn yn cwmpasu ein gwaith er mwyn deall arfer dydd-i-ddydd y rhai yr ydym yn eu rheoleiddio yn well. Ar hyn o bryd, mae ein gwybodaeth am gwmpas gwaith unigolion yn gyfyngedig. Mae hyn yn ein rhwystro rhag darparu cymorth mwy perthnasol i feddygon a deall effaith gwahanol amgylcheddau ar arfer yn llawn. Bydd y gwaith hwn yn archwilio pa wybodaeth y gallem ei chasglu, sut y byddem yn defnyddio honno, a sut y gallai gyfrannu at newid strategol yn ein gallu fel rheolydd.

### Gwrando a dysgu gan y bobl yr ydym yn cael cyswllt gyda nhw

Byddwn yn gweithio gyda grwpiau amrywiol o gleifion a'r cyhoedd er mwyn ymwreiddio eu profiadau yn ein gwaith datblygu polisi, yn ogystal ag wrth wella ein cyswllt a'n gwaith gyda'r proffesiwn. Mae cyflawni ein gweledigaeth yn dibynnu arnom yn gwrando mewn ffordd fwy gweithredol ar anghenion cleifion a'r cyhoedd, y proffesiwn, ein partneriaid, a'n pobl.

# Cyflawni ein strategaeth



## Buddsoddi yn ein pobl i gyflawni ein strategaeth

### Creu diwylliant dysgu cefnogol

Rydym yn gwerthfawrogi ein pobl a bydd galluogi eu datblygiad parhaus yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais. Yn 2021, byddwn yn ceisio sicrhau achrediad safon Aur dan gynllun Buddsoddwyr mewn Pobl – adlewyrchiad o'n hymrwymiad i fod yn gyflogwr da ac yn feincnod er mwyn i ni barhau i ddatblygu.

### Bod yn sefydliad mwy amrywiol a chynhwysol

Byddwn yn gwella ein natur gynhwysol fel cyflogwr, gan sicrhau cynwysoldeb llawn dan y fframwaith [Gwerthuso Talent](#), [Cynhwysiant ac Amrywiaeth](#). Bydd y canlynol yn allweddol i hyn:

- cynyddu amrywiaeth ar lefelau rheoli
- gwella cyfraddau cadw staff o gefndiroedd amrywiol
- sicrhau bod pawb yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys, eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Mae'r buddsoddiad hwn yn modelu'r ymrwymiad yr ydym yn ei ddisgwyl o'r system a chan gyflogwyr ac addysgwyr.



**E-bost:** [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org)

**Gwefan:** [gmc-uk.org](http://gmc-uk.org)

**Ffôn:** 0161 923 6602

Cyhoeddwyd Ionawr 2021

© 2021 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhychu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae'r GMC yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

GMC/BP2021-23/0121